



UMABer
Cyfarfod Bwrdd yr Ymddiriedolwyr
1^{af} Awst 2014
Ystafell Bwyllgor

Presennol:

Jacob Dafydd Ellis (JDE) – Llywydd UMABer, Cadeirydd ac Ymddiriedolwr
Miriam Williams (MW) – Llywydd UMCA ac Ymddiriedolwr
Will Atkinson (WA) – Swyddog Cymorth i Fyfyrrwyr UMABer ac Ymddiriedolwr
Grace Burton (GB) – Swyddog Addysg Myfyrrwyr UMABer ac Ymddiriedolwr
Harriet O'Shea (HO) – Swyddog Gweithgareddau Myfyrrwyr UMABer ac Ymddiriedolwr
Stephen Meachem (SM) – Ymddiriedolwr Allanol UMABer
Estelle Hart (EH) – Ymddiriedolwr Allanol UMABer
Christopher Lloyd Jones (CLJ) – Ymddiriedolwr Ôl-raddedig UMABer
Joshua James (JJ) – Ymddiriedolwr Israddedigion UMABer
John Glasby (JG) – Prif Weithredwr UMABer
Catrin Hopkins (CH) – Swyddog Cyllid UMABer
Andrew Morwood (AM) – Rheolwr Gwasanaethau'r Aelodaeth UM Aber

Yn gwasanaethu:

Anmarie Evans – Clerc i Fwrdd Ymddiriedolwr UMABer
Dan Francis – UCM, Sylwedydd

1. Ymddiheuriadau am Absenoldeb

Elfyn Jones – Ymddiriedolwr Allanol UMABer

2. Datganiadau o fuddiannau

EH - Ymunodd â Phrifysgol Cymru, y Drindod Dewi Sant fel aelod staff
JJ - Yn dal i fod yn Swyddog Rhan-amser yma yn UMABer
JDE - Swyddog yr Iaith Gymraeg UCM Cymru

3. Cymeradwyo Cofnodion Cyfarfod a gynhaliwyd 8^{fed} Mai 2014

Cymeradwywyd cofnodion y cyfarfod blaenorol, a gynhaliwyd ar 8^{fed} Mai 2014 fel cofnod cywir o'r hyn a drafodwyd.

Cynigiwyd: EH

Eiliwyd: GB

4. Materion yn Codi

Digwyddiadau - derbyniodd y Bwrdd bapur ar Fforwm Ddigwyddiadau a gynhaliwyd yn ddiweddar, a fynychwyd gan y Cydlynnydd Digwyddiadau, Tony Bickley:- derbyniwyd hwn yn rhy hwyr i'w gynnwys fel rhan o adroddiad y Prif Weithredwr fel y bwriadwyd yn wreiddiol. Nododd EH nad oedd y papur hwn yn addas ar gyfer ei gyflwyno yn ei ffurf bras, a chadarnhaodd unwaith eto bwysigrwydd derbyn papurau mewn pryd ar gyfer yr ohebiaeth electronig.

Dilynwyd hyn gyda thrafodaeth ar ymarferoldeb parhau â digwyddiadau wedi-nos, a chytunwyd y dylid paratoi a chyflwyno adroddiad manwl i'r Bwrdd gan y Cydlynnydd Digwyddiadau yng nghyfarfod yr Ymddiriedolwyr sydd i'w gynnal ar 5^{ed} Rhagfyr.

Gweithredu - JG/Tony Bickley

Nododd JG fod y siop wedi dangos elw ar ddiwedd y flwyddyn o £62k, gan wneud yn well na'r hyn a ragwelwyd yn y gyllideb o 133%. O'r herwydd, dylai'r angen i ystyried cytundeb partneriaeth â Spar gael ei ollwng o'r agenda ar gyfer y dyfodol.

Cytunodd y Bwrdd ar hyn

Adroddiad ar Etholiadau - hysbysodd AM y Bwrdd ei fod ar hyn o bryd yn gweithio ar Gynllun Strategol ar gyfer Etholiadau a gofynnodd i gael ei gyflwyno i'r Bwrdd yn y cyfarfod nesaf.

Cytunodd y Bwrdd ar hyn

Gofynnodd y Bwrdd hefyd i'r Strategaeth Etholiadau gael ei thrafod â'r Swyddogion cyn ei chyflwyno i'r Bwrdd llawn. Nododd y Bwrdd ei bod yn bwysig meddwl ynglŷn â pha mor hygyrch yw hi i fod yn Swyddog, a sicrhau bod y Strategaeth yn esbonio'n fanwl beth mae'n ei olygu i fod yn Swyddog.

Gweithredu - AM

Papur Llywodraethiant - cynhaliwyd trafodaeth ar aelodaeth yr Is-Grŵp sy'n ymdrin â Llywodraethiant, gan y teimlid o safbwynt cydraddoldeb ac amrywioldeb, nad oedd menywod yn cael eu cynrychioli'n gyfartal ar y grŵp. Cytunwyd y byddai'r aelodau canlynol yn eistedd ar y grŵp yma wrth symud ymlaen.

Grace Burton (Cadeirydd), Estelle Hart, Stephen Meachem, John Glasby, Catrin Hopkins ac Andrew Morwood.

Cytunodd y Bwrdd ar hyn

Nododd EH bod angen i ni gwblhau cynllun dirprwyo awdurdod, ac awgrymodd y dylid trafod hyn yn y Cyfarfod Llywodraethiant nesaf.

Nodwyd

- 5. Adroddiadau'r Swyddogion** Esboniodd JDE y system 'oleuadau traffig' newydd sydd mewn lle er mwyn i Swyddogion fesur ble maen nhw o ran eu hymrwymadau maniffesto:- mae hyn ar gael i'w weld ar y wefan. Esboniodd EH nad yw'r Bwrdd yno i graffu ar Adroddiadau'r Swyddogion; mae'r adroddiadau yno i er gwybodaeth yn unig.

Nodwyd

- 6. Adroddiad Ariannol**

Aeth CH drwy'r adroddiad a gyflwynodd yn flaenorol a nododd ein bod yn rhagweld colled ar ddiwedd y flwyddyn o £27k, amrywiaeth negyddol o £50k yn

erbyn y gyllideb. Cydbwyswyd perfformiad gwael gan weithgareddau masnachol (-£130) i raddau gan ganlyniad elusennol gwell na'r hyn a ragwelwyd yn y gyllideb (+£80).

Dywedodd EH y byddai'n croesawu gwerthusiad gonest ynglŷn ag os yw Adloniant yn faich ariannol ar y mudiad. Nododd JJ fod angen i ni edrych ar amrywiaeth negyddol y Bariau o £102k wrth symud ymlaen. Esboniodd JG ei fod wedi dwyn sylw'r Bwrdd at y tueddiadau hyn tua 6 mis yn ôl, a'i fod yn rhywbeth sydd angen meddwl yn ddwys yn ei gylch wrth i ganlyniadau cynnar 2014/15 amlygu eu hunain.

Yn mynd rhagddo

Cyllideb 2014/15 - nododd EH yr hoffai weld cynllun wrth gefn ar gyfer gostwng niferodd myfyrwyr, gan ei bod yn well i ni gymryd golwg geidwadol fwy gofalus.

Gweithredu - CH

Gofynnodd EH i'r Bwrdd gael ei ddarparu â'r diweddaraf o ran cyfrifon rhwng cyfarfodydd. Cynigiwyd anfon allan adroddiad ariannol misol ynghyd â chyfrifon rheolaeth.

Gweithredu - CH

Cyflwynodd CH y gyllideb ar gyfer 2014/15 gyda newidiadau i'r ffordd y caiff bwyd a choffi eu cofnodi:- mae'r rhain wedi cael eu symud i'r cwmni Elusennol er mwyn gwneud y gorau o fanteision TAW. Ni wnaed unrhyw newidiadau eraill i'r gyllideb wreiddiol.

Cymeradwydd y Bwrdd y Gyllideb ar ei newydd wedd ar gyfer 2014/15.

7. Adroddiad y Prif Weithredwr

Rhoddodd JG grynodedb o'r adroddiad a gyflwynodd yn flaenorol. Roedd ei adroddiad yn ymdrin ag Amcanion Perfformiad Allweddol (APA) Gweithredol, presenoldeb ar Gampws Llanbadarn, Adnoddau Dynol, UCM ac UCM Cymru, ynghyd â rhestr o gyfarfodydd â rhanddeiliaid allweddol.

Croesawodd EH y cyfle i neilltuo mwy o le ar gyfer myfyrwyr yn Llanbadarn, ond nododd fod unrhyw fenter fasnachol angen trafodaeth bellach; gofynnodd i JG ddarparu adroddiad ar oblygiadau cost a.y.b. sy'n perthyn i sicrhau'r gofod yma.

Gweithredu - JG i anfon adroddiad drwy e-bost erbyn yr wythnos sy'n dod i ben 8^{ed} Awst

Cynhaliwyd trafodaeth ar ddatblygiadau diweddar yn UCM ac UCM Cymru, a mynegwyd pryder ynglŷn â'r lefelau o gefnogaeth sydd ar gael, o gofio faint o aelodau staff sydd wedi ymadael yn ddiweddar. Mynegwyd pryder hefyd ynglŷn â'r ffaith nad oed yno Swyddog Cydraddoldeb yn UCM i gynorthwyo UMPA gyda hyfforddiant. Nodwyd hefyd nad oes gan y Brifysgol bellach hyfforddwr Cydraddoldeb ac Amrywioldeb. Bydd rhaid i hyfforddiant ar gyfer staff wedi ei ddarparu'n fewnol fod yn ddigonol hyd nes y caiff un o'r swyddi hyn eu llenwi.

Nodwyd

8. Adroddiad Effaith

Nododd JDE fod yr adroddiad effaith yn ardderchog ac yn drawiadol iawn, ond ei fod yn rhywbeth y gallem efallai fod wedi ei gwblhau ynghynt, efallai cyn yr etholiadau.

Nodwyd

Mynegodd WA bryderon ynglŷn â chyfyngiadau Marchnata a sut roedd hyn yn effeithio ar ei allu i wneud ei swydd. Cytunodd y Bwrdd y dylai'r Rheolwr Marchnata a Chyfathrebu fynychu cyfarfod nesaf yr Ymddiriedolwyr, ac y dylai hyn fod yn rhan o raglen reolaidd o staff yn mynychu cyfarfodydd y Bwrdd.

9. Arolwg Ymgysylltiad Staff

Aeth JG drwy'r adroddiad a gyflwynodd yn flaenorol, ac esboniodd mai diben yr arolwg oedd canfod lefel ysbryd ac ymgysylltiad y staff 12 mis ar ôl cwblhau'r ailstrwythuro. Nododd ei fod yn hapus ar y cyfan â'r lefel o ymgysylltiad, ond bod sawl maes penodol oedd yn peri pryder, yn arbennig o ran y diffyg parch tuag at gydweithwyr a diffyg cyfeiriad a phwrpas ar y cyd. Roedd sgôr staff Gwasanaethau'r Aelodaeth yn gyson 10% yn waeth nag adrannau eraill, ac roedd hyn hefyd yn achos pryder gwirioneddol. Mae wedi trafod hyn gydag AM ac mae gwahanol gyfarfodydd wedi cael eu trefnu i ddechrau mynd i'r afael â hyn gyda staff. Esboniodd AM fod y staff yn ei dîm yn unigolion â chymhelliant cryf ond mai'r her allweddol oedd canfod ffordd iddynt ymuno â'i gilydd.

Nodwyd

10. Calendr Busnes a Dyddiadau

Cytunwyd ar ddyddiadau pob cyfarfod

Er y bydd rôl JJ fel Ymddiriedolwr Israddedig wedi dod i ben erbyn cyfarfod 5^{ed} Rhagfyr, cytunwyd y byddai'n mynychu'r cyfarfod ynghyd â'r Ymddiriedolwr Israddedig newydd fel rhan o drosglwyddo'r awenau.

Unrhyw fusnes arall

Hysbysodd JDE y Bwrdd ein bod ni wedi derbyn ymddiswyddiad Elfyn Jones fel Ymddiriedolwr Allanol, sy'n dod i rym ar unwaith. Cytunodd y Bwrdd y bydd JDE yn cysylltu ag Elfyn gan ddymuno'n dda iddo ar ran y Bwrdd a diolch iddo am ei holl waith caled tra bu yn y swydd. Cytunodd y Bwrdd hefyd y dylid dechrau meddwl am hysbysebu'r swydd yn dilyn archwiliad sgiliau o'r Bwrdd presennol.

Gweithredu - JDE

Cynllun Strategol - bydd JDE yn siarad â JG gan ei bod yn bosib y bydd angen i ni ailasesu rhai meysydd penodol a diweddarau'r APA gweithredol yn unol â hynny. Caiff unrhyw wybodaeth bellach ei darparu ar gyfer y Bwrdd.

Gweithredu - JDE/JG

Hysbysodd JDE y Bwrdd ei fod wedi anfon llythyr o gŵyn at Syr Emyr Parry parthed y sylwadau a wnaeth yng Nghinio'r Cymrodyr, oedd yn ei farn ef yn tansellio myfyrwyr. Mae'n aros am ymateb.

Nodwyd

Gweinyddiaeth - gofynnodd y Bwrdd i gael cyfeirnod papur wedi ei ychwanegu at daflenni blaen adroddiadau a bod y tudalennau wedi eu rhifo. Bydd AE yn edrych ar gwblhau'r papurau drwy dropbox.

Gweithredu - AE

ACF - Gweithredu - AM i anfon allan y canlyniadau i'r Bwrdd

Nododd JDE ei fod wedi trafod â'r Rheolwr Marchnata a Chyfathrebu, Jamie Barker, ynglŷn â threfniadau cyfredol a'r anawsterau sydd wedi codi. Mae'n hyderus fod Swyddogion wedi ymrwymo i ganfod ffordd ymlaen o ran y berthynas waith, a gofynnodd i JG siarad â Jamie ynglŷn â hyn, ac am ei bresenoldeb yng nghyfarfod nesaf yr Ymddiriedolwyr.

Gweithredu - JG

Cynhelir y cyfarfod nesaf ar ddydd Gwener 3^{ydd} Hydref, 1pm, yn 'Stafell y Pwyllgor.